**Canllaw ar sut i wneud cais am ostyngiad tlodi tanwydd ar gysylltiadau nwy newydd**

## *Beth yw'r cynllun estyniadau rhwydwaith i'r rhai sy'n dlawd o ran tanwydd?*

Mae hwn yn gynllun sy'n anelu at alluogi cwsmeriaid domestig sy'n agored i niwed i newid i ddefnyddio nwy naturiol i wresogi eu cartrefi drwy gyfrannu tuag at y gost o gysylltu i'r rhwydwaith nwy. Mae hwn i'w ddefnyddio mewn tai presennol sydd heb gyflenwad nwy ar hyn o bryd.

Mae'r cynllun yn gweithio mewn partneriaeth â chynlluniau a mentrau'r llywodraeth felly mae arian ar gael tuag at gost y systemau ac offer gwresogi nwy newydd a'u gosod.

Mae'r cynllun yn darparu arian i gysylltu eiddo unigol yn ogystal â chymunedau fel pentrefi a fflatiau i'r rhwydwaith nwy.

## *Pam fod y cynllun hwn gennym?*

Cyflwynwyd y cynllun hwn gan y gwasanaeth Rheoli Prisiau Dosbarthu Nwy sy'n pennu'r lwfans y gall cwmni rhwydwaith ei adennill wrth ei gwsmeriaid drwy filiau ynni. Fel rhan o hyn rydym hefyd yn rhoi cymhellion i'r cwmnïau rhwydwaith i fod yn rhan o'r cynllun. Gallant hefyd gael eu gwobrwyo fel rhan o'r cynllun gwobrwyo drwy ddisgresiwn.

Mae'r cynllun yn galluogi cwsmeriaid sy'n agored i niwed i newid i ddewisiadau tanwydd rhatach na thrydan ac olew er mwyn helpu i liniaru tlodi tanwydd.
Os bydd mwy o gwsmeriaid yn defnyddio nwy naturiol bydd llai o allyriadau nwyon tŷ gwydr felly bydd yn cyfrannu at dargedau datblygiad cynaliadwy.

## *Ydw i'n gymwys i gael gostyngiad ar gost fy nghysylltiad nwy?*

Gallech fod yn gymwys i gael arian tuag at gost eich cysylltiad nwy os ydych yn bodloni o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- Yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y DU. Caiff hwn ei fesur gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog[1] (IMD) y Llywodraeth, wrth fesur yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Lefel Is (LOSA). Ceir diffiniad ar wahân i'r IMD yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, fodd bynnag mae pob mynegai yn seiliedig ar yr un egwyddorion. Gellir nodi a mesur incwm, cyflogaeth, addysg ac iechyd, a gellir defnyddio hwn wedyn i ddarparu cyfrifiad cyffredinol o amddifadedd a ddefnyddir i roi lefel o amddifadedd i'r ardal; neu
- Yn gymwys ar gyfer mesurau o dan gynllun Warm Front[2] (Lloegr), Nest/Nyth[3] (Cymru), neu'r Energy Assistance Package[4] (Yr Alban); mentrau yw'r rhain a gaiff eu hariannu gan y llywodraeth a'u nod yw

---

[1] Ceir y map rhyngweithiol sy'n dangos ble mae'r ardaloedd yn http://www.imd.communities.gov.uk/
[2] Ceir rhagor o wybodaeth yn http://www.warmfront.co.uk/
[3] Ceir rhagor o wybodaeth yn http://nestwales.org.uk/cym
[4] Ceir rhagor o wybodaeth yn http://www.energysavingtrust.org.uk/scotland/Scotland-Welcome-page/At-Home/Energy-Assistance-Package?tc=EAP

- darparu inswleiddio a gwres i berchnogion tai sy'n cael budd-daliadau penodol neu sydd dros 60 mlwydd oed; neu
- Yn rhan o'r Grŵp Blaenoriaeth (cartrefi incwm isel a phobl sydd dros 70 mlwydd oed) ar gyfer mesurau o dan y Targed Lleihau Allyriadau Carbon (CERT), sydd wedi cael ei roi ar waith i geisio cyrraedd targedau allyriadau Kyoto sydd wedi cael eu pennu ar gyfer y DU; neu
- Yn dlawd o ran tanwydd yn ôl diffiniad safonol y llywodraeth - hynny yw, yn gwario mwy na 10% o'ch incwm gwario ar ddefnyddio tanwydd yn y cartref i gynnal trefn wresogi foddhaol.


***A fydd y gostyngiad yn cwmpasu cost y cysylltiad nwy?***

Efallai y bydd angen i chi gyfrannu tuag at gost y cysylltiad; fodd bynnag, yn y mwyafrif o achosion bydd y gostyngiad yn cwmpasu cost y cysylltiad. Os bydd angen i chi gyfrannu, bydd hyn oherwydd bod cost y gwaith o osod y cysylltiad yn fwy na gwerth yr incwm y bydd y cwmni rhwydwaith yn ei gael o'r cysylltiad yn y dyfodol, ac felly bydd yn rhaid i chi dalu'r gwahaniaeth.

Ceir enghreifftiau o'r cyfrifiadau a ddefnyddir yma (tud9), http://www.ofgem.gov.uk/Networks/GasDistr/GasDistrPol/Documents1/Revised%20Position%20letter%2016July2009.pdf

***Sut galla i wneud cais am ostyngiad ar gost fy nghysylltiad nwy?***

Os credwch y gallech fod yn gymwys i gael arian bydd angen i chi gysylltu â'r cwmni sydd berchen ar y rhwydweithiau nwy yn eich ardal. Dengys y map isod yr ardaloedd a gwmpasir gan y gwahanol gwmnïau rhwydwaith.



Mae pedwar cwmni rhwydwaith cenedlaethol; mae pob cwmni yn darparu cysylltiadau yn eu hardaloedd hwy o'r rhwydwaith nwy cenedlaethol. Fodd bynnag caiff dau gwmni rhwydwaith annibynnol eu nodi yn y cynllun hefyd sy'n gallu darparu cysylltiadau i unrhyw eiddo arall ar y rhwydwaith nwy cenedlaethol waeth pa ardal o'r rhwydwaith y mae ynddo.

Mae'r saith cwmni rhwydwaith wedi sefydlu partneriaethau gyda sefydliadau eraill a fydd yn helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael arian. Bydd angen i chi gysylltu â'ch cwmni rhwydwaith lleol neu ewch i'w gwefan i weld gyda pha sefydliad mae angen i chi gysylltu er mwyn bwrw ymlaen i wneud cais. Isod mae cyfeiriadau gwe pob un o'r cwmnïau rhwydwaith:

- http://www.wwutilities.co.uk/
- http://www.northerngasnetworks.co.uk/
- http://www.nationalgrid.com/
- http://www.sgn.co.uk/ (Cwmpasu rhwydweithiau Scottish and Southern Gas ar y map)
- http://www.fulcrum.co.uk/
- http://www.fegroup.co.uk/CESindex.php

Isod mae tabl yn dangos manylion partneriaid cymeradwy'r cwmnïau rhwydwaith.

| **Cwmni Rhwydwaith** | **Partner** |
|---|---|
| Wales and West Utilities | EAGA<br>Cymru Gynnes |
| Scotia Gas Networks | Acho<br>Dumfries and Galloway Housing Partnership<br>EAGA<br>Fyne Homes<br>Cyngor Perth a Kinross |
| Northern Gas Networks | Community Energy Solutions<br>EAGA |
| Y Grid Nwy Cenedlaethol | Affordable Warmth Solutions |
| Fulcrum | Affordable Warmth Solutions |
| Complete Energy Solutions | Affordable Warmth Solutions |

***Sut y caiff y cynllun ei ariannu?***

Daw'r arian ar gyfer talu cost y cysylltiad nwy o lwfansau y mae'r cwmnïau rhwydwaith yn eu cael o'u setliad rheoli pris, a chaiff ei ad-dalu drwy daliadau trafnidiaeth sy'n rhan o filiau ynni pob un o'u cwsmeriaid. Daw'r arian ar gyfer y gwres canolog nwy a'r gost o'i osod gan y sefydliadau hynny y mae'r cwmnïau rhwydwaith wedi sefydlu partneriaethau gyda hwy.